# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Hydref 2023 – Cyfrol 9– Rhifyn 1




Rwy'n siŵr eich bod wedi sylweddoli o'r newyddion diweddaraf gennym fod y tri mis diwethaf wedi bod yn sialens i brosiect y siop gymunedol oherwydd yr oedi i gael penderfyniad ar ein grant Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol.

Ar ôl gwthio am benderfyniad gyda chefnogaeth ein Haelodau o'r Senedd, cafwyd galwad ffôn gan Chris Buchan, yr un yr ydym wedi bod yn cysylltu ag ef yn Llywodraeth Cymru, i gadarnhau ei bod wedi cytuno i roi £200,000 i Siop Gymunedol Llandyrnog. Mae hwn yn deimlad enfawr o ryddhad i ni ac i nifer ohonoch, rwy'n siŵr.

Gall y prosiect ddechrau symud ymlaen unwaith eto ac mi fyddwn yn gweithio yn galed i geisio dal i fyny â'r deuddeg wythnos yr ydym wedi eu colli.

Byddwn nawr yn medru gyrru allan y Tystysgrifau Cyfranddaliadau Cymunedol a hoffwn eich gwahodd i gyfarfod cyhoeddus i glywed sut y byddwn yn symud ymlaen i bwrcasu ac agor y siop.

**Bydd y cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd y Pentre nos Fercher, Hydref 11 am 7 o'r gloch. Gobeithiwn y cewn eich cwmni**.

*Emyr Morris*

**Fel y gwelwch o'r pennawd uchod, mae *Llais Llandyrnog* yn dechrau ar ei nawfed flwyddyn. Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth – i'r cydlynwyr ac aelodau'r pwyllgor, i bawb sy'n cyfrannu erthyglau rheolaidd ac achlysurol, i'r hysbysebwyr a'r tanysgrifwyr, ac wrth gwrs i chi, eindarllenwyr. Gobeithiwn ddal ati i barhau – chwedl yr Arglwydd Reith, cyfarwyddwr cyffredinol cyntaf y BBC – i ddarparu gwybodaeth, addysgu a diddanu.**



Cofiwch fod y clociau'n troi'n ôl awr am 2 o'r gloch y bore, dydd Sul, 29 Hydref.

**Cofiwch roi cyfraniad yn y blwch casglu wrth nôl eich copi o'r *Llais*, os gwelwch yn dda. Neu rhowch gyfraniad i'ch dosbarthydd. Diolch!**

# Pytiau newyddion y pentre

**Croeso** i Martin a Carolyn Keating, sydd wedi dod i fyw i Blas y Nant.

**Llongyfarchiadau** i Jane Borthwick ar enedigaeth ei hŵyr, Teifion, mab Gareth ac Ursula a brawd bach Dorothy.

Hefyd i Erin Lloyd Jones ar enedigaeth merch, Tansy Dwynwen, chwaer fach i Poppy Gwenllian.

**Dymuniadau da** i John Ashton ar ei ymddeoliad, ac i Karen Messham, sydd wedi symud o Dŷ Capel Dyffryn. Hefyd i Gwilym Evans ar ôl ei lawdriniaeth.

**Cydymdeimlwn** yn ddiffuant iawn ag Emyr Morris ar golli ei dad; â Bernard a Jennifer Thomas ar golli eu merch, Jane a oedd yn byw yng Nghwm Tawe; ac â theulu'r diweddar Edwina Wynne, gynt o Landyrnog.

**Diolch:** Dymuna Gwilym a theulu'r diweddar Glenys Evans, Glennydd, ddiolch yn ddiffuant i ffrindiau a chymdogion a theulu am y cydymdeimlad, caredigrwydd a'r gefnogaeth a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli gwraig a modryb arbennig. Diolch i bawb a ddaeth i'r angladd.

Gwerthfawrogir y rhoddion hael o dros fil a hanner o bunnoedd a dderbyniwyd er cof am Glenys tuag at gronfa MENCAP Dinbych a Rhuthun.

**Dymuna aelodau pwyllgor *Llais Llandyrnog* gydymdeimlo'n ddiffuant iawn â theulu'r diweddar Jack Crowther. Roedd Jack yn aelod ffyddlon o'r pwyllgor o'r dechrau'n deg, nes i'r pandemig ddod â'r cyfarfodydd i ben. Yr oedd yn fonheddwr yng ngwir ystyr y gair, ac yn uchel ei barch yn yr eglwys a'r gymdogaeth. Cynhelir ei angladd yn eglwys Sant Tyrnog brynhawn dydd Iau, 5 Hydref am 2 o'r gloch.**

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | 2il | Trefoil Guild, 2pm<br>Cyfarfod pwyllgor Llais Llandyrnog, 7pm |
| Mawrth | 3ydd | Clwb Llyfrau, 10–11am<br>Sefydliad y Merched, 7pm |
| Mercher | 11eg | Undeb y Mamau, 2pm |
| Mawrth | 17eg | Clwb Llyfrau, 10–11am<br>Cyngor Cymuned, 7pm |
| Mercher | 18fed | Tuesday Club 2–3pm |
| Llun | 23ain | Clwb Cwiltio, 7pm |
| Mawrth | 31ain | Clwb Llyfrau, 10–11am |

*I logi'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Mrs Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk*

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Llun | 2il | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9pm |
| Sadwrn | 7fed | Grŵp crefftau, 10am–4pm |
| Sul | 8fed | Llan Llanast 3.30–5pm |
| Llun | 9fed | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30-9–pm |
| Mercher | 11eg | Cyfarfod prosiect siop gymunedol Llandyrnog, 7pm |
| Sadwrn | 14eg | Bore coffi –<br>Woody's Lodge, 10am |
| Llun | 16eg | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30-9–pm |
| Mercher | 18fed | Y Gymdeithas Hanes:<br>Cyfarfod Blynyddol 7pm<br>Sgwrs gan Andrew Hesketh – 'Dianc i Gastell Gwrych'. 7.30pm |
| Sad/Sul | 21ain/ 22ain | Brownies yn aros dros nos, 24 awr ar ôl 10 fore Sadwrn |
| Llun | 23ain | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30-9–pm |
| Sadwrn | 28ain | Bore coffi –<br>Eglwys St Tyrnog 10am |
| Llun | 30ain | Côr 7.30–9pm |

**I hurio'r neuadd, cysylltwch ag Ivan Butler ar 07799 570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com.**

# Hwb Llandyrnog



Diolch i bawb a gefnogodd y caffi ar 20fed Medi, roedd yn hyfryd eich gweld chi i gyd. Gwerthfawrogwn y sylwadau caredig yn fawr iawn, roeddem mor falch o glywed eich bod wedi mwynhau eich hunain. Mae'r cyfan yn werth chweil wrth weld pobl yn dod i adnabod ffrindiau newydd, yn dal i fyny â'r newyddion ac yn trafod digwyddiadau lleol. Dyna hanfod bywyd mewn pentref ac roeddem yn arbennig o falch o glywed bod ail grant prosiect y siop wedi'i gadarnhau.

Bydd yr Hwb ar agor eto fis nesaf, 25 Hydref o 11 y bore tan 4 y prynhawn.

**Gwasanaethau mis Hydref yn yr eglwys**

| | | |
|---|---|---|
| 8fed | 11.15 | Cymun bendigaid |
| | 15.30 | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| 15fed | 11.15 | Boreol weddi |
| 22ain | 11.15 | Cymun bendigaid |
| 29ain | 10.30 | Gwasanaeth yr Ardal |

Genhadu yn eglwys St Marchell, Dinbych

# Y Gymdeithas Hanes

**Dianc i Gastell Gwrych – stori anghyfarwydd**

Bydd cyfarfod nesaf Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan, nos Fercher, 18 Hydref yn Neuadd y Pentref. Ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol am 7 o'r gloch, bydd yr awdur Andrew Hesketh yn sôn am ei lyfr diweddar. Mae hwn yn adrodd yr hanes anghyfarwydd am ryw 200 o blant a oedd wedi'u hachub o Ewrop ar y *Kindertransport* ychydig cyn yr Ail Ryfel Byd, yn cyrraedd Castell Gwrych.

Bydd yn sôn am hanes y ffoaduriaid hyn a'r gymuned a adeiladwyd ganddynt, gan daflu goleuni ar bennod o hanes Iddewon sy'n haeddu cael llawer mwy o sylw. Yn ogystal, bydd yn rhannu ymateb y gymuned leol.

Cafodd Andrew Hesketh ei eni a'i fagu yn Swydd Derby. Ar ôl graddio, hyfforddodd i fod yn athro a symudodd i weithio yng Ngogledd Cymru ym 1995. Fel athro hanes gyda dros 30 mlynedd o brofiad, mae wedi datblygu angerdd am ymchwil hanesyddol gwreiddiol.

**Bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn digwydd am 7 o'r gloch, cyn y sgwrs. Am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost at llangwyfanhistory@hotmail.com.**


GLYN EVANS AUTOCLINIC

Canolfan Trwsio Ceir

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR

01745 815141
07808970364

E-bost: evansautoclinic@btconnect.com

# Taith i Ynys Enlli

Ddydd Mercher Medi 6ed, bu criw ohonom o gapeli Bro Dinbych yn ddigon ffodus i gael croesi i Ynys Enlli. Roedd y daith wedi ei threfnu gan y Parch. Andras Iago. Roedd hi'n ddiwrnod braf iawn a'r daith ar y cwch o Borth Meudwy, ger Aberdaron yn llyfn dros ben – diolch i Colin a'i lywio gofalus dros y Swnt. Wedi glanio, beth oedd yn eich taro'n syth oedd awyrgylch hamddenol byd natur – dim ond cri'r morloi, cân yr adar, ambell fref dafad neu fuwch oedd yn torri ar y distawrwydd. Cerdded ar hyd llwybr y pererinion at yr hen dŷ fferm Tŷ Pellaf a chael croeso a phaned o goffi (peiriant i gael *cappuccino* neu *latte* heb gyrraedd yr ynys eto!!) a sgon gartref hyfryd.

Ymweld wedyn â'r hen ysgol lle mae arddangosfa'n olrhain hanes yr ynys a'i chymuned, yna cyrraedd adfeilion tŵr yr hen Abaty Awstinaidd o'r 13eg ganrif. Mae Ynys Enlli wedi bod yn gyrchfan pererinion ers dyddiau cynnar Cristnogaeth, ond mae olion adeiladau ar yr ynys sy'n dyddio o gyfnod Cyn Crist. Darganfyddwyd darnau o gallestr ar yr arfordir gorllewinol sy'n dyddio 2000–1000 CC – arwydd fod pobl yn byw ar yr ynys o leiaf bedair mil o flynyddoedd yn ôl. Ceir olion o adeiladau crynion a phetryal o'r Oes Haearn (tua 700 CC) hefyd.



Credir mai Sant Cadfan sefydlodd fynachlog yn y chweched ganrif. Defnyddid y mynachdy hyd gyfnod Diddymu'r Mynachlogydd ym 1537. Wedi hyn gadawyd Ynys Enlli i'r môr-ladron nes sefydlu cymuned o amaethwyr a physgotwyr yng nghanol y 18ed ganrif, a'r ynys yn eiddo i'r Arglwydd Niwbwrch, a adeiladodd y rhan fwyaf o'r ffermdai, y capel a'r tai a welir ar yr ynys heddiw.

Mae cyfeiriad adnabyddus at yr ynys fel man claddu ugain mil o seintiau, yn dyddio o ddyddiau cynnar y canol oesoedd. Dywedid bryd hynny bod tair pererindod i Enlli gyfwerth ag un bererindod i Rufain.

Wedi crwydro'r ynys, cafwyd gwasanaeth byr bendithiol dan ofal Andras yng Nghapel Enlli. Cynhelir gwasanaethau yno yn ystod yr haf gan Gaplan sy'n ymweld â'r ynys. Ymunodd ymwelydd o Fryste â ni yn y gwasanaeth, ac er nad oedd yn deall gair o Gymraeg, roedd wedi teimlo rhyw awyrgylch hyfryd a mwynhau'r canu emynau!

Buan iawn y daeth yn amser i ni hwylio'n ôl i'r Tir Mawr, a rhaid dweud bod ymweliad wedi bod yn un fythgofiadwy

*Iestyn Jones-Evans*



# Taith i Ynys Enlli: parhad



*Y capel*

***Bywyd Gwyllt Ynys Enlli***

Oherwydd fy niddordeb mewn bywyd gwyllt ac amaeth roedd yr ymweliad yn dod ag atgofion melys i'r cof – a dweud y gwir, cyfle i ail-fyw fy mhlentyndod. Mae Enlli yn gartref clyd i nifer o rywogaethau nad ydynt i'w gweld ar y tir mawr. Rhaid oedd cofio mai eu cartref nhw ydi hwn a ni oedd yr ymwelwyr. Roeddwn wedi gobeithio gweld tair rhywogaeth yn ystod yr ymweliad. Wrth lanio yn yr harbwr roedd teulu o forloi llwyd yn ein croesawu ac wrth gofio ein bod yn cyrraedd yn ystod y cyfnod magu roeddent wedi setlo mewn safle addas ar lan y môr i roi genedigaeth. Rhaid oedd cadw'n pellter ond roedd gwrando arnynt yn galw neu'n sgwrsio â'i gilydd yn brofiad prin iawn. Ia, lwcus iawn fod Andras wedi trefnu'r daith yma yn gynnar yn yr Hydref – yr amser gorau o'r flwyddyn i ddod ar draws y morloi ar y lan.

Adar prin yr arfordir yw'r brain goesgoch, ond mae'n debyg eu bod ar Enlli. Yn anffodus, er i ni chwilio, ddaru ni ddim taro llygad arnynt, dim ond eu clywed yn y pellter. Mae eu sgrech uchel yn reit adnabyddus ac i'w glywed o bell – wedi clywed yr alwad unwaith, fyddwch chi byth yn ei hanghofio. Mae caeau pori Enlli yn gynefin perffaith i'r frân goesgoch gan fod y glaswellt isel yn ei gwneud yn haws iddi ddarganfod y pryfetach yn y pridd gyda'i phig hir coch.

Mae adar drycin Manaw hefyd ar Enlli ond ddim mor niferus yma ag ar Ynys Sgomer. Roedd ein hymweliad y tro hwn tua mis yn rhy hwyr i weld yr adar magu. Maent yn gadael ganol yr haf ar eu taith i Dde America – taith sy'n cymryd pythefnos dda. Tipyn cyflymach na'r *Mimosa* yn 1865! Maent yn adar diddorol iawn am sawl rheswm. Dydyn nhw ddim yn gallu cerdded, dim ond gwthio eu hunain ymlaen ar eu boliau. Dim ond un wy maen nhw'n eu dodwy. Byddan nhw allan yn pysgota drwy'r dydd ac yn glanio i fwydo'r un bach unwaith mae'n tywyllu, rhag i wylanod ymosod arnyn nhw. Maent yn byw mewn tyllau yn y pridd ac yn gallu byw am dros hanner canrif.

Maent yn brysur iawn yn pysgota drwy'r dydd er mwyn i'r un bach dyfu'n gyflym. Yna mae'r rhieni yn gadael y nyth ond erbyn hyn mae'r aderyn bach yn llawn braster ac wedyn yn datblygu ac yn gadael y nyth am Dde America ddechrau'r hydref. Do, fe welsom y nythod ond doedd dim golwg o'r cywion oedd efallai'n gyfforddus yn y nythod dan ddaear neu wedi mudo. Dyna ryfeddod natur ar ei orau.

Ydi, mae'r cynefin yn wych ar Enlli ac mae'n esiampl dda o natur a ffermio llai dwys yn cyd-fyw. Gareth Roberts, Fferm Cwrt, Aberdaron sydd wedi amaethu y 440 erw ar Enlli ers blynyddoedd bellach. Mae yna 360 o famogiaid Cymreig – math Tregaron, gyda rhyw 35 o fuchod sugno yn pori dros yr haf. Estyniad o Fferm Cwrt ydi Enlli meddai Gareth, sydd yn rhoi pwyslais ar fagu defaid amgenach ac wedi cael prisiau da am ei stoc magu dros y blynyddoedd. Erbyn heddiw byddai gwneud digon o elw i gynnal teulu yn dipyn o her. Mae'r pwyslais ar yr amgylchedd, meddai Gareth, ac mae'n ddigon hapus i ffermio mewn modd sydd yn addas ar gyfer hynny. Tipyn o her a chostus yw ffermio Enlli lle mae'n rhaid symud popeth ar gwch a hynny'n dibynnu ar gael tywydd ffafriol.

Mae Gareth yn adnabyddus iawn fel un o gymeriadau Llŷn yn ei het mynd a dod, ac yn gyn-Gynghorydd Sir. Erbyn hyn mae wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb o ffermio Cwrt i'w fab ac mae wrth ei fodd yn helpu ar Enlli ac yn cael mwy o amser i bysgota. Buom yn ffodus i gwrdd â Gareth yn yr Harbwr pan oedd ei gwch yn dod i mewn wedi taith lwyddiannus o bysgota am gimychiaid. Roedd gwên fawr ar ei wyneb gyda chimwch ymhob llaw! Roedd teulu

# Taith i Ynys Enlli: parhad

o ymwelwyr yn aros ar Enlli yn gwsmeriaid parod i'r cimwch. Wrth gwrs mae'n rhaid bod yn ofalus wrth drin y cimwch oherwydd bod brathiad y bodiau fel cael 100 pwys y fodfedd sgwâr yn malu eich bys.

Esboniodd Gareth fod y cimwch, fel ni, yn gallu bod yn llaw dde neu law chwith. Mae'r ddwy fraich yn wahanol – un yn malu, a'r llall yn finiog iawn ac yn torri fel siswrn. Mae'n gallu symud hon yn gyflym iawn ac yn gallu dal pysgod â'r fraich yma. O ystyried hynny, dwi wedi bod yn meddwl am y broses o ladd cimwch drwy ei ddodi mewn dŵr berwedig – creulon iawn, meddyliais! Ond wedi darllen rhagor am y broses yma, mae'n rhaid cofio bod system nerfol cimwch yn fach iawn gyda dim ond tua 100k niwron. Mae gennym ni 100bn niwron yn ein corff. Ond, ar ddiwedd y dydd pwy ond y cimwch sy'n gwybod!

Mae ein diolch i Andras am drefnu ymweliad diddorol gyda thywydd da a ffrindiau da yn ein cwmni trwy gydol y daith.

*Rod Williams*



*Rod (ar y chwith) yn gafael yn y cimwch yn ofalus iawn, rhag ofn iddo golli ei fawd*



Yn ddiweddar, cyhoeddodd Jimmy McNally y neges hon: "Mae pêl-droed i blant yn dechrau eto ar nosweithiau Mawrth, o 6 o'r gloch tan 7. Bydd hyn i blant 6–11 oed a does dim tâl am y sesiynau. Y cyfan rwy'n gofyn amdano yw bod eich plentyn yn frwdfrydig ac yn fodlon dysgu. Dydy hyn ddim er mwyn unrhyw dîm, mae ar gyfer dysgu plant i chwarae'r gêm, ei mwynhau a chael hwyl.

Am ragor o wybodaeth, anfonwch neges at Jimmy McNally drwy Facebook."

Erbyn hyn mae Jimmy yn hyfforddi plant i chwarae pêl-droed ers ugain mlynedd. Mae hyn yn dangos ei ymroddiad llwyr i'r gamp ac i'r plant, ac ar ran pawb sydd wedi manteisio ar ei brofiad a'i frwdfrydedd, diolch, Jimmy!

# Ymgynghoriad

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Cyfoeth Naturiol Cymru, fel yr Awdurdod Dynodi yng Nghymru, i werthuso'r achos dros Barc Cenedlaethol newydd yn seiliedig ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) bresennol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Cynhelir y digwyddiadau ymgysylltu ym mis Hydref a mis Tachwedd 2023:

**Dydd Iau, 19 Hydref** 6yh–7.30yh. Ar-lein ar Microsoft Teams

**Dydd Sadwrn, 28 Hydref** 10yb–4yh.
Wyneb yn wyneb (galw heibio), Parc Gwledig Loggerheads, Ffordd Rhuthun, Yr Wyddgrug, CH7 5LH.

**Dydd Mawrth, 14 Tachwedd** 6yh—7.30yh.
Ar-lein ar Microsoft Teams.

Does dim angen archebu lle ar gyfer y digwyddiad wyneb yn wyneb. Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn un o'r digwyddiadau ar-lein, anfonwch e-bost at dîm y prosiect yn rhaglen.tirweddau.dynodedig@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

# Llan Llanast

Cychwynnodd Llan Llanast unwaith eto gyda'n sesiwn mis Medi pan glywsom ni am stori arch Noah. Roedd Duw wedi dweud wrtho am adeiladu arch, a dod â'i deulu a dau o bob anifail i mewn i'r arch, er mwyn eu hachub rhag y dilyw. Gwnaethom ni bob math o waith crefft yn ymwneud â'r arch, anifeiliaid ac enfysau, a dysgu bod yr enfys yn arwydd o gariad Duw tuag at y byd y creodd.




Pan gychwynnodd Llan Llanast yn 2012, roedd Jack gennym ni o'r dechrau ac yn un o'n cynorthwywyr mwyaf creadigol. Doeddem ni ddim i wybod mai hon fyddai Llan Llanast olaf Jack, a roeddem ni mor drist o glywed am ei farwolaeth ddyddiau'n ddiweddarach. Mae gennym atgofion hyfryd o Jack; byddwn yn ei golli'n fawr iawn, ac anfonwn ein cofion a'n gweddïau at ei deulu a ffrindiau.

## Eglwys St Tyrnog a'r Banc Bwyd

**I ddathlu'r Cynhaeaf, mae aelodau eglwys St Tyrnog wedi bod yn casglu bwydydd i'w cyfrannu at Fanc Bwyd Dinbych. Os hoffech chi gyfrannu, rhowch eitemau yn y bocs yng nghefn yr eglwys. Os oes angen ar unrhyw un yn ein cymdogaeth, mae croeso iddyn nhw gymryd nwyddau o'r bocs. Mae drws yr eglwys ar agor bob dydd.**

# Capel y Dyffryn

**Gwasanaethau mis Hydref**

| | | |
|---|---|---|
| 08/10 | **10am** | Diolchgarwch y Plant |
| 15/10 | 9.45 | Sul Teulu |
| 22/10 | **5pm** | Parch Morus Puw Morris |
| 29/10 | 10am | Oedfa'r Fro: Trefnant |

***Addysg bellach*** Pob dymuniad da i Jac, Sgubor Efa fydd yn astudio ym Mhrifysgol Newcastle a Nanw, Pont y Tŵr fydd yn astudio ym Mhrifysgol Lerpwl

***Y Gymdeithas*** Bydd Noson Agoriadol y Gymdeithas Nos Lun 9 Hydref am 6.30pm gyda Beca, Branwen, Georgia a Hanna yn diddanu.

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.

## Rhifau ffôn defnyddiol

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

## Oriau agor Swyddfa'r Post

**Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener**
**9am–12pm, 2pm–5pm**
**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**
**01824 790310**

**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**

james.davies.mp@parliament.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920

Swyddfa San Steffan: 0207 2194606



# Hanesion Hazel



Mae dyddiad cau golygyddol y cylchgrawn hwn yn golygu fy mod bob amser yn ysgrifennu fis ymlaen llaw, ond roeddwn i'n teimlo bod angen i mi sôn am ein sioe bentref hynod brysur.

I lawer o bentrefi, y sioe yw uchafbwynt cymdeithasol y flwyddyn ac nid yw ein sioe ni yn ddim gwahanol. I mi, mae'n dechrau gyda rhaglen y sioe yn cyrraedd ym mis Gorffennaf. Rwy'n edrych yn fanwl ar y dosbarthiadau ac yn rhoi tic wrth y cystadlaethau sydd o ddiddordeb i fi. Wrth gwrs, mae hyn ym mis Gorffennaf – gall pob math o ddigwyddiadau o waith dyn, o waith ieir (yn fy achos i) ac o waith tywydd, newid y 'rhestr ddymuniadau' honno'n llwyr erbyn diwedd mis Awst. Eleni, penderfynodd un o fy ieir gorau yn sydyn beidio â dodwy, oherwydd nerfusrwydd, mae'n siŵr, ar ôl i mi ddweud wrthi fy mod yn mynd i gystadlu gyda'i hwyau. Felly roedd yn rhaid bodloni gydag wyau Mrs Brown sy'n dodwy yn y cansenni mafon – ddim yn ddelfrydol, ond fe ddaethon nhw'n ail, serch hynny.

Ar y bore, rydym fel lladd nadredd yn casglu'n cynigion ac yn rhuthro i'r neuadd cyn canol dydd. Duw a'n gwaredo os byddwn ni'n anghofio rhywbeth, gan fod arddangoswyr wedi gorfod gwibio adref sawl gwaith i nôl rhywbeth a adawyd ar fwrdd y gegin. Mae fy mrawd yn disgrifio ei sioe bentref fel un 'gymdeithasol ond gyda rhyw arlliw cystadleuol', sy'n iawn yn fy marn i.

Am 2pm rydyn ni i gyd yn dychwelyd yn eiddgar i weld beth yw barn y beirniaid am ein cynigion. Rydych chi'n rhuthro o gwmpas yn gyflym, heb ddiddordeb yng nghynigion neb arall, i weld sut hwyl rydych wedi'i gael.

Am flynyddoedd lawer, roedd fy rhieni yn ennill cwpanau am eu llysiau a'u blodau. Yn fy arddegau, fy ngwaith i oedd rhedeg o gwmpas y neuadd gyda beiro a phapur i gyfri'r pwyntiau, nid yn unig ar gyfer cynigion fy nhad ond ar gyfer cynigion ei gystadleuwyr agosaf hefyd, i weld pwy fyddai'n cael y cwpan, gan ei fod yn methu disgwyl tan y cyhoeddiad am 4 o'r gloch.

Ar ôl edrych ar bob peth am y tro cynta, gallwch ddychwelyd i edrych go iawn ar y cynnyrch gwych. Mae'r babell fawr ar y cae yn sicr yn rhoi mwy o le i bawb edrych ar yr arddangosfa – ychwanegiad ardderchog.

Mae arogl y blodau'n treiddio i'ch ffroenau. Mae'r llysiau'n syfrdanol. Mynd am gacen a the ardderchog wedyn gan Sefydliad y Merched ac yna mynd i mewn i'r neuadd lle mae'r adrannau coginio a chrefftau yn disgwyl amdanoch chi. Mae golwg flasus ar y bwyd ac mae'r crefftau'n berffaith. Rwy'n oedi i werthfawrogi'r holl oriau o waith sydd wedi mynd i'r eitemau, y pwytho cywrain a'r dyluniadau gwych. Ac, wrth gwrs, peidiwch byth ag anghofio prynu tocyn raffl – traddodiad arall sy'n perthyn i'r pentref.




Ond yna rydych chi'n gweld tystysgrif 'Hoff eitem yr Ysgrifennydd' ar un o'ch cynigion. Mae hyn yn codi'ch calon ac rydych chi'n teimlo'n falch iawn o'ch llwyddiant. Penderfynais gystadlu gyda fy stôl ddim ond ychydig cyn y dyddiad cau ond dyna fo – sioeau pentref – maen nhw bob amser yn eich synnu. Mae'r wobr honno'n gwneud i chi deimlo'n wych wrth sefyll gyda'r enillwyr ar y llwyfan a

# Hanesion Hazel: parhad

phawb yn cydio'n falch yn eu tlysau tra mae'r raffl yn cael ei thynnu.

Yna mewn amrantiad mae'r neuadd yn wag. Mae'r pwyllgor hynod frwdfrydig yn gwibio o gwmpas yn clirio'r byrddau a'u cadw, ac yn fuan mae'r neuadd yn llonydd ac yn wag. Mae pobl yn mynd yn ôl i'w cartrefi wedi'u symbylu ar gyfer y flwyddyn nesaf ac efallai'n breuddwydio am ennill cwpan.

A beth am fy mrawd, Peter? Wel, enillodd o y wobr am yr Arddangosyn Gorau yn Adran Grefftau ei sioe. Roedd 2023 yn wir yn flwyddyn dda i'n teulu ni.

*Hazel*

# Cysylltu â'r gorffennol



Daeth Jill ac Ian Wear o Cumbria i Eglwys Sant Cwyfan, Llangwyfan ddydd Iau 21 Medi ar ôl eu priodas yn Llansannan yn gynharach y diwrnod hwnnw. Roedd y briodferch wedi dod i osod ei thusw ar fedd ei thaid a'i nain Humphrey Glegge Thomas (bu farw 4 Ebrill 1974) a Nell (bu farw 30 Ionawr 1994). Roedd taid a nain Jill yn byw yn Forest Cottage, Llangwyfan am flynyddoedd lawer, o'r 1950au hyd at y 70au. Ganwyd Jill (ei henw canol yw Glegge ar ôl ei thaid) yn Llanelwy a bu'n byw yng Ngellifor, ac yn Llansannan wedi hynny.

Mae Ian yn brisiwr eiddo ac mae Jill yn Gydymaith Ymchwil yn Ysgol Gwyddorau Biolegol Prifysgol Caeredin.

# Clwb Probus

Mae Clwb Probus Dinbych a'r Cyffiniau yn grŵp o bobl busnes neu broffesiynol sydd naill ai ar fin ymddeol, neu yn ei fwynhau. Ymunwch â ni unwaith y mis am gyfeillgarwch, cinio a sgyrsiau yng Ngwesty'r Oriel, Llanelwy. Mae croeso cynnes i aelodau newydd.

Bydd y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol ym mis Tachwedd ac ym mis Rhagfyr, bydd Gareth Foulkes yn sôn am ffermio hen ffasiwn modern. Am ragor o fanylion, cysylltwch â'n swyddog aelodaeth, Gareth Williams julmwilliams1974@gmail.com neu ewch i www.denbighprobus.com.

**Diolch o galon i bawb a gefnogodd y boreau coffi ym mis Medi. Codwyd £335 tuag at y Samariaid, a £675 tuag at Macmillan Cancer Support.**


**Blue Hand Mowers**

Repair and servicing of all garden machinery

Lawn mowers and lawn tractors
Chain saws
Hedge cutters
Strimmers
Disc cutters
Quad bikes
Leaf blowers
Hand tools

Collection and delivery service available

Situated on 'Blue Hand Corner' or find us on Google
www.bluehandmowers.co.uk
enquiries@bluehandmowers.co.uk
☎0775 20 35 462

# Neges gan ein hoffeiriad gyda dechrau tymor yr hydref

Rydyn ni'n cael ein hannog i agor ein synhwyrau i gyd i'r hyn y mae pob tymor yn ei ddysgu. "*Os ydych chi am adnabod y Creawdwr, dewch i adnabod ei greadigaeth." (St Columbanus)*

Hydref yw'r mis ar gyfer diolchgarwch ac ni allwn fyth ddiolch digon am bopeth y mae Duw yn ei ddarparu ar ein cyfer. Mae darpariaeth Duw yn ddigon i'r byd i gyd, ond mae'r hyn rydyn ni'n ei wneud â'r ddarpariaeth a sut rydyn ni'n gwneud i hynny weithio o'i gymharu â sut y gallen ni wneud, yn anfoddhaol iawn.

Mae'r prosiectau gwych sydd wedi datblygu i helpu pobl drwy'r anawsterau ariannol yr ydyn ni i gyd naill ai wedi sylwi arnyn nhw neu wedi'u heffeithio'n ddifrifol ganddyn nhw, yn ein calonogi.

Wrth gwrs, yng nghefn gwlad, mae adeg y cynhaeaf yn dal i fod yn ffordd o fyw ar y ffermydd niferus o'n cwmpas, felly rydyn ni a phlant mewn ysgolion yn parhau i'w ddathlu. Rydyn ni'n ffodus yma yn Ardal Genhadu Dinbych fod gennym berthynas dda â llawer o'r ysgolion a fydd yn dathlu gyda ni mewn eglwysi a chapeli hefyd. Bydd rhai hefyd yn cynnal gwasanaethau eu hunain yn yr ysgol.

Mae'r dyfyniad ar y dechrau yn ein gwahodd i ddechrau'r hydref hwn gan anadlu'n ddwfn ac yn hir i mewn trwy'r trwyn ac allan trwy'r geg, yn ymwybodol o'r cosmos ym mhob un ohonon ni a'n perthynas â'n hamgylchedd.

Yn union fel y mae'r tymhorau naturiol yn newid, felly hefyd y tymhorau mewnol yn ein bywydau. Gall pob tymor ddysgu gwersi i ni ar nerth, dygnwch, twf, ffydd ac ymddiriedaeth. "*Can o fawl i Dduw yw'r holl greadigaeth.*" (Hildegard o Bingen)

Felly gadewch inni fod yn effro a chanmol Duw gyda'n gilydd wrth inni ddechrau tymor arall o'n bywyd arferol. Diolchwn am gymaint, a thrown at Iesu i gael yr heddwch a'r daioni sy'n ein bendithio cymaint wrth inni edrych ar Dduw y creawdwr.

Yn neges y mis hwn, sydd wedi canolbwyntio ar arsylwi a diolchgarwch wrth i ni ddechrau hydref arall, hoffwn orffen gyda dyfyniad gan Patrick O'Sullivan i'n helpu ar ein taith:

*Mae'r hydref yn ein gwahodd i wrando ac arsylwi.*

*Mae'n dymor y cynhaeaf, trawsnewid a gollwng gafael.*

*Mae'n cynrychioli'r cylch naturiol o dwf, marwolaeth ac adnewyddiad yr ydym yn ei brofi yn ein bywydau.*

*Hydref tanbaid, tymor cynaeafu ac ildio hael, adeg doethineb a thrawsnewid.*

*Lliwiau'r hydref, rhew'r bore, dail yn cwympo, harddwch dros dro, marwolaeth a marw.*

*Mae gan natur gerddoriaeth i'r rhai sy'n gwrando a harddwch i'r rhai sy'n arsylwi.*

*"Mae'n bosibl ystyried bod y synhwyrau yn meithrin ein bod ysbrydol, emosiynol a deallusol."*

Felly dymunaf i chi gael mis Hydref bendigedig yn ystyried dirgelwch a rhyfeddod bywyd yn y tymor hudolus.

*Y Parchedig Martin Pritchard*


J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK -
FARM TYRE SPECIALISTS
BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602

# Rysáit

## Pasta pwmpen

**Cynhwysion**

2 lwy fwrdd o olew olewydd
1 nionyn, wedi'i dorri'n fân
2 clof garlleg, wedi'u malu'n fân
500g pwmpen neu sgwash, wedi'i blicio a'i dorri'n giwbiau tua 3cm o faint
50–100ml llefrith cyflawn
2 lwy fwrdd o biwrî tomato
2 lwy fwrdd o mascarpone
350g pasta byr (rigatoni neu penne yn addas)
40g parmesan wedi'i gratio, neu gaws llysieuol, ac ychydig yn ychwanegol i'w roi ar ben y saig parod

**Dull**

Cynheswch yr olew mewn caserol mawr, bas y gallwch ei roi ar hob, neu mewn padell ffrio, dros wres isel-canolig. Ffrïwch y nionyn gyda phinsiad o halen am 10–15 munud nes y bydd wedi meddalu ac yn lled dryloyw.
Yn y cyfamser, berwch y ciwbiau pwmpen mewn sosban o ddŵr â halen am 10–15 munud nes iddyn nhw feddalu. Tywalltwch y dŵr o'r sosban a rhowch y ciwbiau pwmpen mewn blendiwr (neu defnyddiwch blendiwr â llaw). Blendiwch nhw gyda 50ml llefrith a'r nionod nes bydd y cymysgedd yn hollol lyfn. Ychwanegwch ragor o lefrith yn raddol nes bod y cymysgedd yn ddigon trwchus i orchuddio cefn llwy (efallai na fydd angen yr holl lefrith arnoch). Rhowch y cymysgedd mewn padell ffrio fawr gyda'r piwrî tomato a'r mascarpone, a mudferwch y cyfan dros wres isel.
Coginiwch y pasta mewn sosban fawr o ddŵr berwedig â halen, gan ddilyn cyfarwyddiadau'r pecyn. Tywalltwch y dŵr o'r sosban gan gadw cwpanaid ohono. Trowch y saws pwmpen a'r parmesan i'r pasta, gyda 50–100ml o'r dŵr o'r sosban i'w deneuo.
Ychwanegwch halen a phupur a thaenwch y parmesan ychwanegol dros y cyfan.

# Ysgol Bryn Clwyd



Aeth John Rowlands, cadeirydd pwyllgor y Sioe Flodau a Chynnyrch, a'i wraig, Olwen, i'r ysgol ar ddechrau'r tymor i gyflwyno gwobrau i enillwyr cystadlaethau yn y sioe. Hefyd, fe roeson nhw *rosettes* a hadau blodau gwyllt i bob plentyn, a sôn ychydig wrthyn nhw am y sioe. Gobeithio y bydd rhagor o blant yn cystadlu'r flwyddyn nesa – cyfle i ennill ychydig o bres poced!


DBP
Denbigh
Building
Plastics

*SUPPLIERS & INSTALLERS*
*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**

# Bryn 'Butler' Davies yn gyrru bws

Well i fi gydio eto yn fy stori ers y mis diwetha – ymddiheuriadau, fe es i ar grwydr braidd.

Fe dreuliais i sawl awr pan oeddwn i'n blentyn yn gwylio Stan, Olive, Inspector '*I 'ate you Butler*' Blakey, Jack, a Mabel wrth gwrs – y cymeriadau yn *On the buses*. Roedden nhw'n ddoniol iawn, a gan eu bod nhw wedi bod yng ngwersyll Pontins, Prestatyn i wneud un o'u ffilmiau, y seidcar wedi mynd yn sownd ar Bont Rhuddlan, a Mabel, neu Doris Hare, yn byw yn Ninbych, roedden nhw'n gymeriadau credadwy iawn i ni blant.

Rwy'n dechrau crwydro eto! Er i mi dreulio oriau lawer ar fysus, ac wedyn ar goetshys, a wnes i erioed edrych yn llawn dyhead ar y coetshys drud anferth yna, fel dwi'n edrych ar lorïau – lorïau drud, y lorïau mwya moethus – a theimlo'r angen i yrru un ohonyn nhw, ar fy mhen fy hun, a diflannu dros y gorwel? Wel, naddo – erioed!

Pam? Wel. Ychydig iawn o amynedd sydd gen i. Os ydw i'n llwytho defaid i mewn i'r trelar, a'r un yn y tu blaen yn penderfynu peidio â symud ymlaen, gan rwystro llwytho'r ddafad olaf yn iawn, fel arfer gallaf ddefnyddio fy ffon i roi proc i'r ddafad lletchwith i wneud iddi fynd yn ei blaen, pwyso ychydig ar y drws, a 'pherswadio' y gweddill i symud yn eu blaenau.

Rŵan te, petawn i'n llwytho haid o hen ferched ar eu bws Saga Holidays o flaen eu gwesty yn Llandudno, fyddwn i ddim yn cael gwneud hynny, na'swn? Fyddwn i ddim yn boblogaidd iawn, ac yn hytrach na chael tip, byddwn i fwy na thebyg yn cael slap – slap haeddiannol iawn.

Beth bynnag, er nad ydw i wedi bod ar dân eisiau gyrru bws, cefais gyfle i wneud hynny, diolch i Ifan. Agorais gerdyn a dyna fo – profiad *The Italian Job*!

Roedd hyn yn y gyfle i yrru'r bws chwedlonol, yr Harrington Legionnaire – yr un a oedd yn y ffilm *The Italian Job*, yn nadreddu lawr Bwlch Nivolet yn yr Eidal. Af i ddim i fanylion am yr Harrington, ond cwmni adeiladau bysus yn Sussex oedd hwn, a ddechreuwyd yn 1897 ac a ddaeth i ben yn 1966. Nid oedd y Legionnaire, a adeiladwyd ddim ond rhwng 1963 ac 1965 yn gwerthu'n dda iawn – dim ond tri sy'n weddill, mae'n debyg!

Felly, dyma Anwen a fi'n cychwyn yn gynnar, ac i mewn i Storm Antoni – gwynt yn chwythu ar 70mya a'r glaw yn hyrddio – hen wragedd a ffyn go iawn. Beth bynnag, erbyn i ni gyrraedd pwynt ucha'r M62 – y fan lle mae'r fferm yng nghanol y drafffordd – roedd hi'n gwella a'r haul yn tywynnu dros Swydd Efrog.




A wir i chi, roedd golwg ddilys iawn ar y bws, gyda Turin a Llundain uwchben y ffenest flaen. Ond roedd y rhif cofrestru yn dynodi ei fod yn dod o Sir Ddinbych, o bob man – RCA 501B! Tybed ble gychwynnodd y bws yma ei daith?

I fod yn fwy triw i'r bws gwreiddiol, roedden nhw wedi tynnu'r seddi i gyd allan ac wedi gwneud lle yn y cefn i'r ceir Mini yrru i mewn i'r bws, ond roeddwn i'n synhwyro rywsut nad oedd hyn yn mynd i ddigwydd y tro yma!

Beth bynnag, dwi ddim yn un am fethu cyfle a dweud 'mod i wedi gyrru un o'r unig dri bws Harrington sy'n weddill yn y byd i gyd – amdani!

Efallai fod y bws yn y ffilm wedi mynd i lawr

# Gyrru bws: parhad

Bwlch Nivolet yn gyflym, oherwydd bod y bwlch yn serth a'r brêcs fwy na thebyg yn ddiffygiol. Ond roedd y bws yma ychydig yn 'flinedig'. Dwi ddim yn credu i fi fynd yn gyflymach na 30mya ac roedd hanner llathen rhwng y gêr cyntaf a'r ail, ac roedd y trydydd gêr yno yn rhywle. Ddes i ddim o hyd i'r pedwerydd gêr o gwbl. Ond wyddoch chi be? Ar ôl ychydig roedd yn teimlo'n gartrefol iawn – aeth â fi'n ôl i fy nyddiau ar fws ysgol a'r dynion yn gyrru, yn pwyso'r *clutch*, yn gostwng *revs* yr injan ac wedyn yn cael hyd i gêr arall – teimlad go iawn o 'does dim angen brysio'! Cyfnod gwahanol iawn.



Beth bynnag, ar ôl gadael y bws, roedd yr haul yn dal i dywynnu ac fe gawson ni bicnic ar lan afon Wharfe yn Wetherby. Am dref a diwrnod hyfryd iawn! A chyn gynted ag i ni groesi'r ffin i Gymru, dechreuodd hi lawio eto. Croeso i Gymru!

*Bryn Davies*



*Bryn ar lan afon Wharfe yn Wetherby*

# Tuesday Club

Cafodd aelodau'r Clwb eu tristáu'n arw o glywed am farwolaeth Glenys, cyn-drefnydd y clwb. Gweithiodd hithau a Gwilym yn ddiflino dros eu cyfnod o 17 mlynedd yn rhedeg y Clwb, yn trefnu sgyrsiau, prydau a thripiau i'r aelodau. Roedd hi'n aelod gwerthfawr o'r gymdogaeth, a'i doniau gweinyddol yn werthfawr i nifer o gymdeithas a grwpiau.

Bydd colled fawr ar ôl Glenys ac mae'r Clwb yn cydymdeimlo'n ddwys iawn â Gwilym a'r teulu.

Dymunwn ben blwydd hapus iawn i'n cyn-aelod, Joyce Catteroll, a fydd yn 95 yn ystod y mis. Erbyn hyn mae hi'n byw gyda'i merch yn West Kirby.

Cafodd cyfarfod mis Medi ei ganslo oherwydd y tywydd gwael, ond bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, 18 Hydref yn yr Ystafelloedd Coco. Bydd croeso cynnes i aelodau newydd – dewch aton ni.

# Trefoil Guild



Fe gawson ni sesiwn o ioga mewn cadair esmwyth gyda Sadie Williams, a phawb wedi ymlacio'n llwyr cyn ein paned a bisged. Canwyd Taps ar ddiwedd y cyfarfod. Cawson ni ein hatgoffa i ddod â thuniau o gig neu bysgod ar gyfer y banc bwyd i'r cyfarfod nesaf, cyfarfod Diolchgarwch.

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Medi Cyngor Cymuned Llandyrnog

- Cadeirydd y cyfarfod oedd Gwen Butler a fynegodd gydymdeimlad diffuant y cyngor â'r Cyngh. Evans ar golli Glenys, a'r Cyngh. Morris ar golli ei dad.
- Er bod y plismon cymunedol yn absennol, cafwyd adroddiad o ladrad wedi'i gynllunio, yn hytrach nag ar hap, o safle adeiladu lleol ac mae'r heddlu wedi cael gwybod.
- Cafwyd gwybod gan berchennog tai gwag yn y pentre y  bydd gwaith i'w codi i safon dderbyniol ar fin dechrau.
- Bydd digwyddiad i'r cyhoedd ynghylch y posibilrwydd o sefydlu pedwerydd parc cenedlaethol yng Nghymru, a fydd yn cynnwys rhan o Ddyffryn Clwyd, ddydd Sadwrn, 28 Hydref ym Mharc Gwledig Loggerheads.
- Mae Cyngor Sir Ddinbych yn holi am wybodaeth am goed hynafol yn y dyffryn i'w gwarchod. Penderfynwyd awgrymu castanwydd enwog gyferbyn â'r White Horse – un o dri brenin Pentre Mawr, a'r goeden pry cop ar Benycloddiau.
- Hyd yn hyn, does dim offer i fesur cyflymder wedi'u rhoi ger Green Farm. Byddai hyn yn gorfod bod ar y cyd rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Sir Ddinbych, a does dim sicrwydd y byddai'r naill na'r llall yn rhoi blaenoriaeth i hyn.
- Mae'r arian gan Lywodraeth Cymru wedi dod i brosiect y siop gymunedol, a fydd yn dod â gwireddu'r prosiect gam yn nes.
- Roedd y materion cynllunio yn cynnwys Tystysgrif Defnyddio'n Gyfreithiol ar gyfer Maes y Wern, rhagor o wybodaeth am safle'r Hufenfa, newidiadau i'r adeilad newydd ym Mwthyn Celynog, ac ôl-gais cynllunio ynghylch y cyfleusterau gofalu am gŵn yn fferm y Wern.
- Roedd y parcio o flaen Oliver's Row yn dal i fod yn broblem ac mae'r plismon cymunedol yn ymwybodol ohoni.
- Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cael cais i drwsio'r ffens yn safle randiroedd Nant Glyd.
- Cafwyd adroddiad am bryderon ynghylch wyneb y palmant rhwng Kinmel Terrace a'r ysgol. Ond oherwydd cyfyngiadau ariannol, eto mae'n amheus a fydd CS Ddinbych yn ystyried hyn yn flaenoriaeth. Ond fe fydd yn cael ei riportio.

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*

# Pererindod i Langwyfan



Cerddodd aelodau Capel Bethania, Rhuthun o Landyrnog, heibio cofeb Tŷ Modlen, lle cafodd Methodistiaeth ei sefydlu yn y pentre, i eglwys St Cwyfan. Daeth John Rowlands i gyfarfod â nhw yno i roi sgwrs fer am hanes yr eglwys. Trefnwyd yr ymweliad gan Iona McKee (ail o'r chwith), Bodfan gynt.

# Ac yn olaf...

Bydd Steve Juckes Hughes yn perfformio yn y noson o gerddoriaeth fyw yn y Guildhall, Dinbych – Gwerin yn yr Eirin, nos Sadwrn, 7 Hydref. Bydd y noson yn dechrau am 7.30, a thâl mynediad yn £5 wrth y drws.